

Gweddi o ddiolch am Gyfryngwr

Diolch y medrwn ni droi atat mewn gweddi
yn enw ein Harglwydd Iesu Grist
ac nad oes angen yr un cyfryngwr arall arnom
i bontio rhyngom â thi.

Diolchwn am y cyfoeth a gawn ynddo
o faddeuant a heddwch, o gysur a nerth.

Helpa ni i fod yn fwy agored
i dderbyn arweiniad dy Ysbryd Glân
yn ein bywydau bob dydd.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu.

Amen

Gweddi dros Gristnogion a Erlidir

Dad Nefol,

Gweddiwn yn arbennig heddiw dros Gristnogion
mewn gwledydd fel Gogledd Corea a Somalia,
Affganistan, Pacistan a'r Swdan
sy'n cael eu herlid oherwydd eu ffydd.

Diolchwn am gael addoli heddiw
mewn sicrwydd a diogelwch.

Maddau i ni am fodloni ar fywydau esmwyth
ac am bob diffyg sêl a brwdfrydedd yn dy waith.

Maddau i ni hefyd am bob oerni calon a phob diffyg ffydd.

Rho i ni ddewrder a dycnwch newydd

i fentro rhannu ein ffydd yn wyneb
siniciaeth a materoliaeth ein hoes.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu.

Amen.

Gweddi dros Gymru'n gwlad

Dad Nefol

Gweddiwn dros Gymru'n gwlad

y bydd cenhedlaeth newydd o bobl Cymru

yn clywed am yr Arglwydd Iesu

yn ei dderbyn fel Arglwydd bywyd

ac yn ei ddilyn yn ffyddlon fel disgyblion.

Gofynnwn hefyd y bydd eu ffydd yn cael ei ddangos

mewn gweithredoedd o gariad a gwasanaeth costus

er mwyn cyffwrdd a thrawsnewid ein byd.

Gofynnwn i ti alw pregethwyr newydd heddiw

i gyfathrebu neges yr Efengyl

mewn ffordd addas a phernasol i'n hoes,

a rho'r hyder i bob un ohonom i ddweud wrth eraill

am y cymorth a'r nerth a dderbyniwn gennyt

o ddydd i ddydd.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu.

Amen.

Gweddi o ddiolch ac o ymgysegrïad

Dad nefol,

diolchwn i ti am John Penri

ac am bawb dros y canrifoedd

sydd wedi gwneud safiad dewr dros eu Harglwydd

ac wedi talu'r pris eithaf am eu ffyddlondeb i Grist.

Helpa ni o'r newydd

i gysegru ein bywydau i Ti

ac i gyflwyno'r cyfan sydd gennym

i'th wasanaeth ac i waith Dy Deyrnas.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu

Amen.